PROSIECT SIARC Crynodeb

Cam 2, Blwyddyn 1

Amdanom ni

Mae Great Eggcase Hunt y Shark Trust wedi bod yn rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd wneud gwaith cadwraeth siarcod ers 2003. Trwy gofnodi casys wyau siarcod a morgathod (a elwir hefyd yn byrsau môr-forwynion) sy'n golchi i fyny ar y traeth, neu'r rhai a welir yn datblygu o dan y dŵr, gallwn gael gwell dealltwriaeth o bresenoldeb ac amrywiaeth rhywogaethau ofiparol (sy'n dodwy wyau) yn nyfroedd Prydain.

Ap

Mae Prosiect SIARC (Sharks Inspiring Action and Research with Communities) yn brosiect amlddisgyblaethol sydd ar waith ledled Cymru, gyda phwyslais ar gynnwys y gymuned a chynnal ymchwil mewn dwy Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Lansiwyd Prosiect SIARC ym mis Tachwedd 2021, ac mae bellach wedi dechrau ar ei ail gam ers mis Ebrill 2023. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cynnal helfeydd casys wyau ar lannau'r Gogledd ar ran Prosiect SIARC, gyda'r holl ddata'n cael ei gyflwyno i'r Shark Trust.

Ffurflen gofnodi

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru hefyd wedi hyfforddi Hyrwyddwyr casys wyau i drefnu eu helfeydd casys wyau eu hunain ac adrodd am eu darganfyddiadau ar ddarn mabwysiedig o draeth yn rheolaidd. Ond gallwch chi gymryd rhan heb orfod mynd i ddigwyddiad wedi'i drefnu! Rydym ni'n annog cymunedau arfordirol i gynnal helfeydd casys wyau ar eu liwt eu hunain a rhoi gwybod am unrhyw ganfyddiadau (gyda lluniau!) i'r Great Eggcase Hunt, gan ddefnyddio naill ai'r Hwb Cofnodi ar-lein (ar gael yn Gymraeg neu Saesneg) neu drwy ap gwyddoniaeth dinasyddion y Shark Trust.

Dyma beth rydych chi wedi'i ganfod ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf...

CAM DAU - BLWYDDYN UN

Casys wyau a gasglwyd 01 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024

Cyfanswm

YR HELFEYDD CASYS WYAU

78

~270

YN CYMRYD RHAN

yn nigwyddiadau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

22

O HYRWYDDWYR

wedi'u hyfforddi i gynnal digwyddiadau GEH

Cyfanswm

Y CASYS WYAU A GOFNODWYD: 7,715



Pob = 1% o gofnodion

- Morgi Brych
- Morgath Ddreiniog
- Morgath Fannog
- Morgi Lleiaf

Pob = < 1% o gofnodion

- Morgath Lygaid-Bach
- Morgath Felen
- Morgath Lygadog



Wedi'u dilysu: 92%

Heb eu dilysu: 8%

406 o gasys wyau (wyau Morgi Brych yn bennaf) wedi'u canfod ym Mhorth Nobla
Nick Richards | GEH

Casys wyau Morgath Lygaid-Bach (*Raja microocellata*) a Morgath Lygadog (*Leucoraja naevus*) wedi'u canfod ym Mhorth Neigwl
Sophia Taylor | GEH

Casys wyau Morgath Ddreiniog (*Raja clavata*) wedi'u canfod ar Draeth y Gogledd, Llandudno
Charles a Clare Welsh | GEH



WWW.EGGCASE.ORG

Mae Prosiect SIARC yn brosiect cydweithredol sy'n cael ei arwain gan ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chymorth Cronfa Rhwydwaith Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac On the Edge.

COFNODWYR CAMPUS

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn cynnal llu o ddigwyddiadau hela casys wyau mewn grŵp, ac yn coladu darganfyddiadau'r rhai sy'n cymryd rhan, felly mae'r Ymddiriedolaeth Natur yn gyfrifol am gyflwyno bron i 60% o'r casys wyau a gyflwynwyd ar ran Prosiect SIARC ac maen nhw'n cynrychioli grŵp mwy o bobl.

Y tu allan i'r digwyddiadau hyn dan ofal Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, y 5 cofnodwr gorau ar gyfer Prosiect SIARC eleni oedd:

5 Uchaf

1. Elaine Blanchard - **1379**
2. Kathryn Brass - **739**
3. Nick Richards - **406**
4. Charles a Clare Welsh - **393**
5. Louise Rogers - **218**

Didoli casys wyau yn ôl rhywogaeth ar ôl Helfa Casys Wyau adeg y Pasg yn Llandanwg
Harriet Allen | GEH

LLEOLIADAU'R CASYS WYAU

Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 7,715 o gasys wyau eu cofnodi drwy Brosiect SIARC o 22 lleoliad, â'r rheini yn y Gogledd yn bennaf, a rhai o'r Canolbarth:



DARGANFYDDIADAU

Fel arfer, fe welwch chi gasys wyau o bedair rhywogaeth yn y Gogledd: Morgi Brych (61% o gasys wyau a gofnodwyd dros y flwyddyn ddiwethaf), Morgath Ddreiniog (20%), Morgi Lleiaf (13%) a Morgath Fannog (6%).

Fodd bynnag, mae casys wyau o rywogaethau eraill yn gallu ymddangos hefyd. Eleni, roedd y casys wyau mwy anarferol a gofnodwyd fel rhan o Brosiect SIARC yn cynnwys 22 o gasys wyau Morgath Lygaid-Bach, 5 cas wyau Morgath Felen a 3 chas wyau Morgath Lygadog!

Gall casys wyau prinnach eraill olchi i'r lan hefyd. Yng ngham blaenorol Prosiect SIARC, daethpwyd o hyd i gas wyau Morgath Las a chas wyau Morgath Drwynfain ger Aberystwyth. Er nad yw'r casys wyau hyn wedi'u cofnodi trwy Brosiect SIARC eleni, dyw eu canfod ddim yn beth amhosibl, felly cofiwch edrych yn fanwl!

Y cyfan sydd ei angen arnoch i gymryd rhan yw bwced neu fag a llygad craff!
Harriet Allen | GEH

CYMRYD RHAN

I ddysgu mwy am ddigwyddiadau Great Eggcase Hunt yn y Gogledd, ewch i dudalen digwyddiadau Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Os hoffech ddysgu sut i fod yn Hyrwyddwr Casys Wyau a mabwysiadu darn o draeth, cysylltwch ag info@northwaleswildlifetrust.org.uk

I wybod mwy am Brosiect SIARC a ffyrdd eraill o gymryd rhan, ewch i brif wefan Prosiect SIARC.

I ddysgu mwy am Great Eggcase Hunt yng ngweddill y DU ac o gwmpas y byd, neu'r Shark Trust, ewch i eggcase.org.

WWW.EGGCASE.ORG

Mae Prosiect SIARC yn brosiect cydweithredol sy'n cael ei arwain gan ZSL (Cymdeithas Sŵolegol Llundain) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gyda chymorth Cronfa Rhwydwaith Natur Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac On the Edge.